Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 16 (Cy. 6)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd mewn wyth Rhan, yn diwygio amryw Reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyllid myfyrwyr, ac mewn cysylltiad ag ef.

Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwyso.

Mae Rhannau 2 i 8 yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau a ganlyn—

(a) mae Rhan 2 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"),

(b) mae Rhan 3 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014"),

(c) mae Rhan 4 yn diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"),

(d) mae Rhan 5 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"),

(e) mae Rhan 6 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"),

(f) mae Rhan 7 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol"), ac

(g) mae Rhan 8 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn diweddaru'r diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2014, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019 i gynnwys personau y rhoddir caniatâd iddynt i aros yn y Deyrnas Unedig o dan gynllun newydd, sef Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin, fel bod personau o'r fath yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y terfynau ffioedd a chymorth i fyfyrwyr,

(b) yn darparu bod categorïau penodol o fyfyrwyr yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr fod wedi setlo yn y Deyrnas Unedig, yn dod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y terfynau ffioedd a chymorth i fyfyrwyr pan fyddant yn cael eu statws preswylydd sefydlog yn ystod blwyddyn academaidd,

(c) yn diweddaru'r categorïau o fyfyrwyr yn Rheoliadau 2007, Rheoliadau 2015, Rheoliadau 2018, y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig o'r tiriogaethau tramor Prydeinig, er mwyn darparu i ddinasyddion Prydeinig o dras Chagosaidd fodloni'r gofynion o ran preswylio fel arfer o dan y categorïau hynny, fel bod personau o'r fath yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y terfynau ffioedd a chymorth i fyfyrwyr,

(d) yn darparu i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn ryngosod gymhwyso i gael grant myfyriwr anabl o dan Reoliadau 2018, i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu cymorth technegol, atgyweirio neu amnewid mewn cysylltiad ag offer a ddarparwyd neu a gymeradwywyd ar eu cyfer yn flaenorol o dan grant o'r fath,

(e) yn darparu i fyfyrwyr sy'n bersonau sy'n ymadael â gofal gymhwyso i gael y didyniad is sydd ar gael wrth gyfrifo swm y grant at deithio sy'n daladwy iddynt o dan Reoliadau 2018,

(f) yn hepgor cyfeiriadau at ddomisil mewn darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrifo neu drin incwm o dan Reoliadau 2014, Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018 a Rheoliadau 2019, a fydd yn ddiangen o ganlyniad i newidiadau, o 6 Ebrill 2025 ymlaen, i drethiant unigolion heb ddomisil yn y DU,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(g) yn gwneud cywiriadau i Reoliadau 2017 a Rheoliadau 2018, mewn cysylltiad â diwygiadau a wnaed i bob un o'r Rheoliadau hynny gan Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) (Cymru) 2023, i egluro hyd cyfnod penodol o amser ac i ddisodli term gwallus yn y testun Cymraeg, yn ôl eu trefn, ac

(h) yn hepgor darpariaethau diangen sy'n ymwneud â Chynllun KESS 2 yn y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol a Rheoliadau 2019, sy'n ddiangen o ganlyniad i gau'r cynllun hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Ariannu a Strategaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 16 (Cy. 6)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *8 Ionawr 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *10 Ionawr 2025*

*Yn dod i rym*

*Rheoliadau 1 i 8, 10 i 18, 21 i 32, 34 i 47 a 49 i 51* *3 Chwefror 2025*

*Rheoliadau 9, 19, 20, 33 a 48* *6 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983(**1**) ac adrannau 22(1)(a) a (2)(a) ac (c), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**), ac sydd bellach yn

(**1**) 1983 p. 40; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2005/3238 (Cy. 243), Atodlen 1, paragraff 9; O.S. 2010/1080, Atodlen 1, paragraff 12; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; a Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 44 ac Atodlen 4.

(**2**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

arferadwy ganddynt hwy(**1**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**2**).

# RHAN 1

## Enwi, dod i rym a chymhwyso

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Chwefror 2025, yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Daw rheoliadau 9, 19, 20, 33 a 48 (diwygiadau sy'n ymwneud â statws annomisiliedig) i rym ar 6 Ebrill 2025.

### Cymhwyso

**2.**—(1) Mae'r rheoliadau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth, ac â ffioedd a dyfarndaliadau sy'n gymwys, mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y

---

(**1**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006, erthygl 2(a) (O.S. 2006/1458) gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, erthygl 2 ac Atodlen 1 (O.S. 1999/672) gydag effaith o 1 Gorffennaf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 hefyd fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) ac (c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio—

(a) rheoliadau 6, 13, 16, 17, 18, 25, 26, 27, 28, 29, 38, 39, 46 ac 47 (myfyrwyr sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd);

(b) rheoliadau 31 a 32 (diwygiadau i'r grant at deithio – personau sy'n ymadael â gofal).

(2) Mae rheoliadau 5, 12, 24, 37 a 45 (dinasyddion Prydeinig o dras Chagosaidd) yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth, ac â ffioedd a dyfarndaliadau sy'n gymwys, mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025 mewn cysylltiad â chwrs a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2023, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2025 ai peidio.

# RHAN 2

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**3.** Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Diwygiad sy'n ymwneud â chynlluniau Wcráin

**4.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir", yn lle paragraff (a) (ond nid y "neu" ar ei ôl) rhodder—

"(a) o dan Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo, yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r cynlluniau a ganlyn—

(i) y Cynllun Teuluoedd o Wcráin(**2**);

---

(**1**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2023/87 (Cy. 17). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Caeodd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin i geisiadau newydd am 15:00 (amser safonol Greenwich) ar 19 Chwefror 2024. Nodwyd y cynllun hwn o dan baragraffau UKR 1.1 i UKR 10.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-ukraine-family-scheme-visa.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(**1**);

(iii) y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin(**2**);

(iv) Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin(**3**);".

PENNOD 3

Dinasyddion Prydeinig o dras Chagosaidd

**5.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 9C—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) ar y dechrau mewnosoder "Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), ";

(ii) ar ôl paragraff (a)(i) hepgorer "neu";

(iii) ar ôl paragraff (a)(ii) mewnosoder—

"neu

(iii) yn ddinesydd Prydeinig—

(aa) a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw; neu

(bb) sy'n ddisgynnydd uniongyrchol person a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth

---

(**1**) Mae'r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**2**) Mae'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 21.1 i UKR 28.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-to-stay-in-the-uk-under-the-ukraine-extension-scheme.

(**3**) Cyhoeddwyd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin gan y Swyddfa Gartref ar 19 Chwefror 2024 ac mae i fod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd y cynllun hwn yn galluogi unigolion sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig drwy un o'r cynlluniau Wcráin eraill a restrir uchod i wneud cais am 18 mis ychwanegol o ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw;";

(b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion paragraffau (c) ac (ch) o is-baragraff (1), trinnir person a grybwyllir ym mharagraff (a)(iii) o is-baragraff (1) fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig mewn unrhyw gyfnod cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs nad yw'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig na'r Ynysoedd ynddi.

(4) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a grybwyllir ym mharagraff (a)(iii) o'r is-baragraff hwnnw."

PENNOD 4

Myfyrwyr sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd

**6.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 2(1), hepgorer "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(b) ym mharagraff 2(1)(b), ar y diwedd mewnosoder "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(c) ym mharagraff 2A(1)(a), hepgorer "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(d) ym mharagraff 9C(1)(a)(i), hepgorer "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs".

## RHAN 3

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

PENNOD 1

Cyflwyniad

**7.** Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

(**1**) O.S. 2014/3037 (Cy. 303), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287) ac O.S. 2022/764 (Cy. 166). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## PENNOD 2

### Diwygiad sy'n ymwneud â chynlluniau Wcráin

**8.** Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir", yn lle paragraff (a) (ond nid y "neu" ar ei ôl) rhodder—

"(a) o dan Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo, yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r cynlluniau a ganlyn—

(i) y Cynllun Teuluoedd o Wcráin(**1**);

(ii) y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(**2**);

(iii) y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin(**3**);

(iv) Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin(**4**);".

## PENNOD 3

### Diwygiad sy'n ymwneud â statws annomisiliedig

**9.** Yn Atodlen 2 (cyfraniad y myfyriwr), ym mharagraff 4(6)(a), hepgorer "neu wedi ymgartrefu" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd.

---

(**1**) Caeodd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin i geisiadau newydd am 15:00 (amser safonol Greenwich) ar 19 Chwefror 2024. Nodwyd y cynllun hwn o dan baragraffau UKR 1.1 i UKR 10.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-ukraine-family-scheme-visa.

(**2**) Mae'r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**3**) Mae'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 21.1 i UKR 28.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-to-stay-in-the-uk-under-the-ukraine-extension-scheme.

(**4**) Cyhoeddwyd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin gan y Swyddfa Gartref ar 19 Chwefror 2024 ac mae i fod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd y cynllun hwn yn galluogi unigolion sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig drwy un o'r cynlluniau Wcráin eraill a restrir uchod i wneud cais am 18 mis ychwanegol o ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 4

## Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**10.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Diwygiad sy'n ymwneud â chynlluniau Wcráin

**11.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir", yn lle paragraff (a) (ond nid y "neu" ar ei ôl) rhodder—

"(a) o dan Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo, yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r cynlluniau a ganlyn—

(i) y Cynllun Teuluoedd o Wcráin(**2**);

(ii) y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(**3**);

(iii) y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin(**4**);

---

(**1**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2023/87 (Cy. 17). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Caeodd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin i geisiadau newydd am 15:00 (amser safonol Greenwich) ar 19 Chwefror 2024. Nodwyd y cynllun hwn o dan baragraffau UKR 1.1 i UKR 10.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-ukraine-family-scheme-visa.

(**3**) Mae'r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**4**) Mae'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 21.1 i UKR 28.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-to-stay-in-the-uk-under-the-ukraine-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iv) Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin(1);”.

PENNOD 3

Dinasyddion Prydeinig o dras Chagosaidd

**12.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 9C—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) ar y dechrau mewnosoder “Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), ”;

(ii) ar ôl paragraff (a)(i) hepgorer “neu”;

(iii) ar ôl paragraff (a)(ii) mewnosoder—

“neu

(iii) yn ddinesydd Prydeinig—

(aa) a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw; neu

(bb) sy’n ddisgynnydd uniongyrchol person a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw;”;

(b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(3) At ddibenion paragraffau (c) a (d) o is-baragraff (1), trinnir person a grybwyllir ym mharagraff (a)(iii) o is-baragraff (1) fel pe bai’n preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig mewn unrhyw gyfnod cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs nad yw’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig na’r Ynysoedd ynddi.

(4) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a grybwyllir ym mharagraff (a)(iii) o’r is-baragraff hwnnw.”

---

(1) Cyhoeddwyd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin gan y Swyddfa Gartref ar 19 Chwefror 2024 ac mae i fod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd y cynllun hwn yn galluogi unigolion sydd wedi dod i’r Deyrnas Unedig drwy un o’r cynlluniau Wcráin eraill a restrir uchod i wneud cais am 18 mis ychwanegol o ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### PENNOD 4

### Myfyrwyr sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd

**13.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 2(1), hepgorer “, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs”;

(b) ym mharagraff 2(1)(b), ar y diwedd mewnosoder “ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs”;

(c) ym mharagraff 2A(1)(a), hepgorer “ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd”;

(d) ym mharagraff 9C(1)(a)(i), hepgorer “ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs”.

# RHAN 5

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**14.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio yn unol â’r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Diwygiad sy’n ymwneud â chynlluniau Wcráin

**15.** Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir”, yn lle paragraff (a) (ond nid y “neu” ar ei ôl) rhodder—

“(a) o dan Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo, yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o’r cynlluniau a ganlyn—

(i) y Cynllun Teuluoedd o Wcráin(**2**);

---

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2023/1349 (Cy. 243). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Caeodd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin i geisiadau newydd am 15:00 (amser safonol Greenwich) ar 19 Chwefror 2024. Nodwyd y cynllun hwn o dan baragraffau UKR 1.1 i UKR 10.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-ukraine-family-scheme-visa.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(1);

(iii) y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin(2);

(iv) Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin(3);".

PENNOD 3

Myfyrwyr sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd

**16.** Ym mhob un o reoliadau 15(e) a 82(4)(f), a pharagraff 6(d) o Atodlen 4, yn lle "mharagraff 3(1)(a)" rhodder "mharagraff 2(1)(a), 2A(1)(a) neu 3(1)(a)".

**17.** Ym mhob un o reoliadau 23(12)(d), 49(2)(d) a 111(2)(d), yn lle "mharagraff 3(1)(a)" rhodder "mharagraff 2(1)(a) neu 3(1)(a)".

**18.** Yn Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys)—

(a) ym mharagraff 2(1), hepgorer "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(b) ym mharagraff 2(1)(b), ar y diwedd mewnosoder "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(c) ym mharagraff 2A(1)(a), hepgorer "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd".

(**1**) Mae'r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**2**) Mae'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 21.1 i UKR 28.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-to-stay-in-the-uk-under-the-ukraine-extension-scheme.

(**3**) Cyhoeddwyd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin gan y Swyddfa Gartref ar 19 Chwefror 2024 ac mae i fod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd y cynllun hwn yn galluogi unigolion sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig drwy un o'r cynlluniau Wcráin eraill a restrir uchod i wneud cais am 18 mis ychwanegol o ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

PENNOD 4

Diwygiadau sy'n ymwneud â statws annomisiliedig

**19.** Yn Atodlen 5 (asesiad ariannol), ym mharagraff 5(6)(a), hepgorer "neu wedi ymgartrefu" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd.

**20.** Yn Atodlen 6 (asesiad ariannol – grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion), ym mharagraff 4(6)(a), yn lle "nad yw A'n preswylio, yn preswylio fel arfer neu wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig" rhodder "nad yw A yn preswylio neu'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig".

PENNOD 5

Cywiriadau

**21.** Ym mhob un o reoliadau 4(10F)(b), 81(10F)(b) a 110(12F)(b), ar ôl "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" mewnosoder "aros yn y Deyrnas Unedig".

# RHAN 6

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

PENNOD 1

Cyflwyniad

**22.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Diwygiad sy'n ymwneud â chynlluniau Wcráin

**23.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2ZC(2), yn lle paragraff (a) (ond nid y "neu" ar ei ôl) rhodder—

"(a) o dan Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo, yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r cynlluniau a ganlyn—

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/87 (Cy. 17) ac O.S. 2023/1349 (Cy. 243). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) y Cynllun Teuluoedd o Wcráin(**1**);

(ii) y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(**2**);

(iii) y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin(**3**);

(iv) Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin(**4**),”.

PENNOD 3

Dinasyddion Prydeinig o dras Chagosaidd

**24.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 6BB—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) ar y dechrau mewnosoder “Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), ”;

(ii) ym mharagraff (a), daw’r geiriau o “wedi setlo” hyd at y diwedd yn is-baragraff (i);

(iii) ar ôl yr is-baragraff (i) hwnnw mewnosoder—

“neu

(ii) yn ddinesydd Prydeinig—

(aa) a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965,

---

(**1**) Caeodd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin i geisiadau newydd am 15:00 (amser safonol Greenwich) ar 19 Chwefror 2024. Nodwyd y cynllun hwn o dan baragraffau UKR 1.1 i UKR 10.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-ukraine-family-scheme-visa.

(**2**) Mae’r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**3**) Mae’r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 21.1 i UKR 28.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-to-stay-in-the-uk-under-the-ukraine-extension-scheme.

(**4**) Cyhoeddwyd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin gan y Swyddfa Gartref ar 19 Chwefror 2024 ac mae i fod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd y cynllun hwn yn galluogi unigolion sydd wedi dod i’r Deyrnas Unedig drwy un o’r cynlluniau Wcráin eraill a restrir uchod i wneud cais am 18 mis ychwanegol o ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw, neu

(bb) sy'n ddisgynnydd uniongyrchol person a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw,";

(b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion paragraffau (c) a (d) o is-baragraff (1), trinnir person a grybwyllir ym mharagraff (a)(ii) o is-baragraff (1) fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig mewn unrhyw gyfnod cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs nad yw'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig na'r Ynysoedd ynddi.

(4) Nid yw paragraffau (e) ac (f) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a grybwyllir ym mharagraff (a)(ii) o'r is-baragraff hwnnw."

## PENNOD 4

### Myfyrwyr sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd

**25.** Yn rheoliad 80(2)(b)(iv), yn lle "mharagraff 1(2)(a)" rhodder "mharagraff 1(1)(a), (2)(a) neu (3)(a), neu 6BB".

**26.** Yn rheoliad 81(3)(b)(iii), yn lle "mharagraff 1(2)(a)" rhodder "mharagraff 1(1)(a) neu (2)(a)".

**27.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), hepgorer "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(b) ym mharagraff 1(1)(a)(ii), ar y diwedd mewnosoder "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(c) ym mharagraff 1(3)(a), hepgorer "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(d) ym mharagraff 6BB(1)(a)(i) (fel y'i hailrifir gan reoliad 24(a)(ii) o'r Rheoliadau hyn), hepgorer "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs".

**28.** Yn Atodlen 4 (grant myfyriwr ôl-raddedig anabl), ym mharagraff 14(3)(b)(iii), yn lle "mharagraff 1(2)(a)" rhodder "mharagraff 1(1)(a) neu (2)(a)".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**29.** Yn Atodlen 5 (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge), ym mharagraff 4(2)(d), yn lle "mharagraff 1(2)(a)" rhodder "mharagraff 1(1)(a), (2)(a) neu (3)(a), neu 6BB".

PENNOD 5

Diwygiad i'r grant myfyriwr anabl – blynyddoedd rhyngosod

**30.** Yn rheoliad 62 (amodau cymhwyso i gael grant myfyriwr anabl), ym mharagraff (2), yn Eithriad 6, ar y diwedd mewnosoder—

"Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â grant myfyriwr anabl i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu cymorth technegol, atgyweirio neu amnewid mewn cysylltiad ag offer sy'n eiddo i'r myfyriwr, pan—

(a) bo'r offer hynny—

(i) wedi eu cyllido'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan grant myfyriwr anabl, neu

(ii) wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru i'w defnyddio gan y myfyriwr at ddibenion grant myfyriwr anabl, a

(b) bo'r grant myfyriwr anabl y cyfeirir ato ym mharagraff (a) wedi ei gymeradwyo mewn cysylltiad ag—

(i) blwyddyn academaidd flaenorol o'r cwrs presennol, neu

(ii) blwyddyn academaidd o gwrs blaenorol, pan fo'r myfyriwr wedi cael cadarnhad gan Weinidogion Cymru y bydd y grant hwnnw yn cael ei drosglwyddo i'r cwrs presennol."

PENNOD 6

Diwygiadau i'r grant at deithio – personau sy'n ymadael â gofal

**31.** Yn rheoliad 65 (grant at deithio ar gyfer myfyrwyr meddygol), ym mharagraff (3), yng Ngham 2, ar ôl "flwyddyn honno", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "neu os yw'r myfyriwr cymwys yn berson sy'n ymadael â gofal o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 49".

**32.** Yn rheoliad 66 (grant at deithio ar gyfer astudio neu weithio dramor), ym mharagraff (2), yn y diffiniad o Y, ym mharagraff (a), ar y diwedd mewnosoder "neu os yw'r myfyriwr cymwys yn berson sy'n ymadael â gofal o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 49".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

PENNOD 7

Diwygiad sy'n ymwneud â statws annomisiliedig

**33.** Yn Atodlen 3 (cyfrifo incwm), ym mharagraff 18(2), yn Rheswm 1, ym mharagraff (a), hepgorer "nac wedi ymgartrefu".

PENNOD 8

Cywiriadau i'r testun Cymraeg

**34.** Yn y testun Cymraeg—

(a) yn Atodlen 2, ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (2)(b), yn lle "ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros" rhodder "ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros";

(ii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle "ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros" rhodder "ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros";

(iii) yn is-baragraff (5), yn lle "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" rhodder "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros";

(b) yn Atodlen 7, ym mharagraff 1, yn Nhabl 16, yn y golofn gyntaf (ymadrodd), yn lle "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" rhodder "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros".

# RHAN 7

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

PENNOD 1

Cyflwyniad

**35.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Diwygiad sy'n ymwneud â chynlluniau Wcráin

**36.** Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir", yn lle paragraff (a) (ond nid y "neu" ar ei ôl) rhodder—

(**1**) O.S. 2018/656 (Cy. 124), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2023/87 (Cy. 17). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

“(a) o dan Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo, yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o’r cynlluniau a ganlyn—

(i) y Cynllun Teuluoedd o Wcráin(**1**);

(ii) y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(**2**);

(iii) y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin(**3**);

(iv) Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin(**4**);”.

PENNOD 3

Dinasyddion Prydeinig o dras Chagosaidd

**37.** Yn Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys), ym mharagraff 10BB—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) ar y dechrau mewnosoder “Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), ”;

(ii) ym mharagraff (a), daw’r geiriau o “wedi setlo” hyd at y diwedd yn is-baragraff (i);

(iii) ar ôl yr is-baragraff (i) hwnnw mewnosoder—

“neu

---

(**1**) Caeodd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin i geisiadau newydd am 15:00 (amser safonol Greenwich) ar 19 Chwefror 2024. Nodwyd y cynllun hwn o dan baragraffau UKR 1.1 i UKR 10.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-ukraine-family-scheme-visa.

(**2**) Mae’r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**3**) Mae’r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 21.1 i UKR 28.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-to-stay-in-the-uk-under-the-ukraine-extension-scheme.

(**4**) Cyhoeddwyd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin gan y Swyddfa Gartref ar 19 Chwefror 2024 ac mae i fod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd y cynllun hwn yn galluogi unigolion sydd wedi dod i’r Deyrnas Unedig drwy un o’r cynlluniau Wcráin eraill a restrir uchod i wneud cais am 18 mis ychwanegol o ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) yn ddinesydd Prydeinig—

(aa) a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw; neu

(bb) sy'n ddisgynnydd uniongyrchol person a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw;";

(b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion paragraffau (c) a (d) o is-baragraff (1), trinnir person a grybwyllir ym mharagraff (a)(ii) o is-baragraff (1) fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig mewn unrhyw gyfnod cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs nad yw'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig na'r Ynysoedd ynddi.

(4) Nid yw paragraffau (e) ac (f) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a grybwyllir ym mharagraff (a)(ii) o'r is-baragraff hwnnw."

PENNOD 4

Myfyrwyr sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd

**38.** Yn rheoliad 8(e), yn lle "mharagraff 3(1)(a)" rhodder "mharagraff 2(1)(a), 2A(1)(a), 3(1)(a) neu 10BB".

**39.** Yn Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys)—

(a) ym mharagraff 2(1), hepgorer "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(b) ym mharagraff 2(1)(b), ar y diwedd mewnosoder "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs";

(c) ym mharagraff 2A(1)(a), hepgorer "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(d) ym mharagraff 10BB(1)(a)(i) (fel y'i hailrifir gan reoliad 37(a)(ii) o'r Rheoliadau hyn), hepgorer "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

PENNOD 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â Chynllun KESS 2

**40.** Yn rheoliad 2(1), hepgorer y diffiniad o "Cynllun KESS 2".

**41.** Yn rheoliad 3(3)—

(a) ar ôl is-baragraff (k) mewnosoder "neu";

(b) hepgorer is-baragraff (m) a'r "neu" o'i flaen.

**42.** Yn rheoliad 14—

(a) ym mharagraff (8), hepgorer is-baragraff (e);

(b) ym mharagraff (11), hepgorer is-baragraff (e) a'r "ac" o'i flaen.

# RHAN 8

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

PENNOD 1

Cyflwyniad

**43.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Diwygiad sy'n ymwneud â chynlluniau Wcráin

**44.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 2C(2), yn lle paragraff (a) (ond nid y "neu" ar ei ôl) rhodder—

"(a) o dan Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo, yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r cynlluniau a ganlyn—

(i) y Cynllun Teuluoedd o Wcráin(**2**);

---

(**1**) O.S. 2019/895 (Cy. 161), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/1365 (Cy. 360), O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2023/87 (Cy. 17). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Caeodd y Cynllun Teuluoedd o Wcráin i geisiadau newydd am 15:00 (amser safonol Greenwich) ar 19 Chwefror 2024. Nodwyd y cynllun hwn o dan baragraffau UKR 1.1 i UKR 10.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-ukraine-family-scheme-visa.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(**1**);

(iii) y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin(**2**);

(iv) Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin(**3**),”.

PENNOD 3

Dinasyddion Prydeinig o dras Chagosaidd

**45.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys), ym mharagraff 8BB—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) ar y dechrau mewnosoder “Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), ”;

(ii) ym mharagraff (a), daw’r geiriau o “wedi setlo” hyd at y diwedd yn is-baragraff (i);

(iii) ar ôl yr is-baragraff (i) hwnnw mewnosoder—

“neu

(ii) yn ddinesydd Prydeinig—

(aa) a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw, neu

(bb) sy’n ddisgynnydd uniongyrchol person a anwyd yn Nhiriogaeth

---

(**1**) Mae’r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**2**) Mae’r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 21.1 i UKR 28.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r rheolau mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-to-stay-in-the-uk-under-the-ukraine-extension-scheme.

(**3**) Cyhoeddwyd Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin gan y Swyddfa Gartref ar 19 Chwefror 2024 ac mae i fod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd y cynllun hwn yn galluogi unigolion sydd wedi dod i’r Deyrnas Unedig drwy un o’r cynlluniau Wcráin eraill a restrir uchod i wneud cais am 18 mis ychwanegol o ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig. Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw,”;

(b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(3) At ddibenion paragraffau (c) a (d) o is-baragraff (1), trinnir person a grybwyllir ym mharagraff (a)(ii) o is-baragraff (1) fel pe bai’n preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig mewn unrhyw gyfnod cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs nad yw’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig na’r Ynysoedd ynddi.

(4) Nid yw paragraffau (e) ac (f) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a grybwyllir ym mharagraff (a)(ii) o’r is-baragraff hwnnw.”

PENNOD 4

Myfyrwyr sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd

**46.** Yn rheoliad 16(1)(b)(iv), yn lle “mharagraff 1(2)(a)” rhodder “mharagraff 1(1)(a), (2)(a) neu (3)(a), neu 8BB”.

**47.** Yn Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), hepgorer “ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs”;

(b) ym mharagraff 1(1)(a)(ii), ar y diwedd mewnosoder “ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs”;

(c) ym mharagraff 1(3)(a), hepgorer “ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd”;

(d) ym mharagraff 8BB(1)(a)(i) (fel y’i hailrifir gan reoliad 45(a)(ii) o’r Rheoliadau hyn), hepgorer “ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs”.

PENNOD 5

Diwygiad sy’n ymwneud â statws annomisiliedig

**48.** Yn Atodlen 3 (cyfrifo incwm), ym mharagraff 18(2), yn Rheswm 1, ym mharagraff (a), hepgorer “nac wedi ymgartrefu”.

PENNOD 6

Diwygiadau sy’n ymwneud â Chynllun KESS 2

**49.** Yn rheoliad 10(1), yn Eithriad 9, hepgorer paragraff (e).

**50.** Yn Atodlen 1, ym mharagraff 3(1), hepgorer y diffiniad o “Cynllun KESS 2”.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**51.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 1, yn Nhabl 3, hepgorer y cofnod ar gyfer "Cynllun KESS 2".

*Vikki Howells*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
8 Ionawr 2025